CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed HYDREF 2026.

CAPEL GAD BODFFORDD.

PRESENNOL:
Cyng. R G Parry (Cadeirydd) Cyng. Mrs B Jones (Is-Gadeiryddes) Cyng. J Evans, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, Mrs L Roberts,

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng. Mrs B Jones (Rhif 1)

CAEL COFNODION 15ed MEDI 2026 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2026/159. Cais llawn ar gyfer codi Stabl ar dir yn :- Cynllun Diwygiedig.
Rhyd Fawr, Trefor.
Dim gwrthwynebiad.
Cynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. R R Roberts.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2026/159. Cais llawn ar gyfer creu compownd storio newydd gyda lleoli cynhwysydd parhaol a ffens yn:-
Plot 7 Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd.
Caniatad.
Derbynwyd gan y Cyngor ac wedi ei gefnogi.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Trefniadau Ffair Borth 24ain Hydref 2026.
Bydd yn cael ei chynnal ar y stryd, mae`n anorfod y bydd yn amharu rhywfaint ar y dref.
Traffig: Gorchymyn cau ffyrdd Ffordd Telford, Stryd y Bont, Ffordd y Ffair a Stryd Y Paced yn wreiddiol o 14..00 ar ddydd Gwener 23ain Hydref hyd 7.00 ar ddydd Sul 25ain Hydref.
Bydd Cludiant Bwyd ar ddefnydd i bob gwasanaeth.
Parcio: Meysydd Bulkley a Choed Cyrnol ar agor. Meysydd Ffordd y Ffair a Llys Menai yn cael ei defnyddio gan y Ffair. Waun yn annibynnol.
Dim Parcio Llwytho / Dadlwytho. Yn weithredol yng Nghil Bedlam, y Stryd Fawr a rhannau o ffordd Cadnant.

Y Cyngor yn dderbynniol o`r wybodaeth.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Arolwg Cymunedol o Drefniadau Etholiadol. Cynigion Drafft.
Cyfuno Wardiau Heneglwys, Bodwrog a Llandrygarn 10 sedd.
Ar hyn o bryd Heneglwys 5 sedd Bodwrog 3 sedd Llandrygarn 2 sedd.
Y Cyngor yn hollol gwrthwynebu y cynnig gan y Cyngor Sir.
Rhaid meddwl o`r posibilrwydd o gael deg Cynghorydd o ardal Heneglwys, ni fydd unrhyw genfogaeth i Bodwrog a Llandrygarn wedyn yn bodoli. Gyda`r Cynigion yn dod i fewn ni fydd son wedyn am Bodwrog a Llandrygarn a Heneglwys dim ond Bodffordd. Sydd ddim yn dderbyniol.
Ers daeth Bodffordd i fodolaeth dros 30 mlynedd yn ol mae`r Cynghorwyr wedi bod yn gadarn o`r ardaloedd Heneglwys (5) Bodwrog (3) Llandrygarn (2) ac yn dymuno i aros fel ac y mae. Nid oes unrhyw gecru erioed wedi bod rhwng y Cynghorwyr. Ar bob cyfrif gadael pethau fel y maent.
Cynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. R R Roberts, (Unfrydol)

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru. Galwad a dystiolaeth.
Bydd Un Llais Cymru yn cyflwyno ymateb ar ran y sector gyfan, gyda Cynghorau rannu tystiolaeth fer.
Beth mae`r Llywodraeth yn ei ystyried:-
Syniadau ynghylch sut y gall diwylliant a chwaraeon helpu Cymru fod yn:-
Iachach (gwella llesiant drwy gyfranogi) Cyfoethocach (cefnogi swyddi, twristiaeth a`r diwydiannau creadigol) Fwy gwydn (sefydliadau, cyfleusterau a gweithlu cryf) Fwy medus (gwell mynediad i blant a phobl ifanc) Fwy cysylltiedig) (lleihau unigrwydd a chryfhau cymunedau) Fwy hyderus a dwyieithog (dathlu diwylliant a hunaniaeth Gymreig)
Pam mae hyn yn bwysig i`r Cyngor.
Gefnogi digwyddiadau lleol. Cynnal neu ariannu cyfleusterau. Darparu grantiau bach. Diogelu trefadaeth a hunaniaeth leol. Ymsysylltu a phobl ifanc.
Mae Llywodraeth Cymru angen clywed:
Beth sydd ei angen gennym. Cyfrannu mewn dwy ffordd.
Astudiaeth achos fer. Un peth mae`r cyngor wedi`i gefnogi (digwyddiadau lleol, cyfleusterau, chwaraeon, prosiect trefadaeth, neu weithgaredd ieuenctid)
Ychydig o sylwadau ysgrifenedig; (Asedau diwylliannol neu chwaraeon lleol) (Atal pobl rhan cymryd rhan) (Beth syd yn gweithio yn dda)(Ple mae bylchau o ran cyllid neu adnoddau)(Grwpiau sy`n cael y gwasanaeth lleol lleiaf)(Cyfleoedd gyd gwell cefnogaeth)(Pwysau sy`n effeithio ar sefydliadau lleol)
Y Cyngor yn hollol gefnogol i`r cynllun.

6. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin..
Gweithdy Rhywogaethau Ymledol 20.10 Ynys Môn gan Menter Môn, yn Neuadd y Dref.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth, ac yn annog i frynychu, os yn bosib.

RHODDION.

7. Papur Bro. Glorian. Pasiwyd i gyfrannu £100. Cynnig Cyng. Mrs B Jones, eilio Cyng W R Parry.

8. Eglwys Gad Newydd. Bodffordd. Pasiwyd i gyfrannu £600 tuag at baentio adeilad y Capel.
Cynnig Cyng. W R Parry, eilio Cyng. J Evans.

PLWYFOL.

9. Elusen William Bold.
Dewiswyd 2 Gynrychiolydd ar yr Elusen am bedair blynedd hyd 2030.
Cyng. J Evans. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng D T Roberts.
Cyng. W R Parry. Cynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. R R Roberts.
Y ddau Gynghorydd yn derbyn.

10. Fflachwyr Cyflymder. (Dan Gynllun Balchder)
Maen`t wedi ei archebu i Bentref Bodffordd (20 mya) a Llynfaes (40mya)
Bydd y Cyngor Sir yn ei gosod yn y dyfodol agos.

11. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Oherwydd fod tyfiant annisgwyliadwy yr adeg yma o`r flwyddyn pasiwyd yn unfrydol i rhoi torriad ychwanegol. Gan fawr obeithio na fydd angen mwy y tymor hwn. Unfrydol.
Bydd y Cyngor yn symud ymlaen i gael amcangyfrif am y tymor nesaf yn fuan.

12. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Nid oedd y Cynghorydd yn bresennol.

MATERION ARIANNOL.

13. Cyfrif Rhedegol. £10,244.15

ARIAN MYNWENT GYMUNEDOL. (Rhan o`r cyfrif Rhedegol)

TALIADAU:

14. Clerc £517.06. (Cyflog) HMRC (Stamp Ysiwrant Cyflogi) £115.36. E Frazer (C a C Mynwent Gymunedol) £165.00. Glorian (Rhodd) £100.00. Eglwys Gad Newydd (Rhodd) £600.00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. J Evans.

D Owen (Clerc / RFO)